

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 46 Tachwedd 17, 2022 50c.

COP27

Erbyn y byddwch yn darllen y geiriau hyn bydd COP27 wedi digwydd. I'r rheini sy'n holi beth yw COP27, dyma gynhadledd hinsawdd flynyddol y Cenhedloedd Unedig. Eleni, mae'n cymryd lle yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Sharm el-Sheikh yn yr Aifft, 6-18 Tachwedd 2022. Mae 198 o aelodau ynghlwm wrth y broses; fe'u hadnabyddir fel 'partion' (mae 'COP' yn golygu 'cynhadledd y partion').

Mae COP27 yn bwysig! Bydd rhaid i arweinwyr wneud penderfyniadau ar lawer o faterion a ohiriwyd ganddynt yn COP26 yn Glasgow. Yn y flwyddyn ers y trafodaethau hinsawdd hynny, mae realiti'r argyfwng wedi amlygu ei hun. Mae'r argyfwng bwyd yn nwyrain Affrica wedi gwaethygu, tra bod miliynau o bobl wedi'u dadleoli gan lifogydd ym Mhacistan.



Cronfa

Ar drothwy'r gynhadledd byddwn i am ddadlau os yw COP 27 am lwyddo, rhaid i arweinwyr y byd sicrhau sefydlu 'cronfa colled a difrod'. Rheini sy'n byw mewn gwledydd sydd wedi cyfrannu lleiaf at allyriadau nwyon tŷ gwydr yw'r rhai sy'n cael eu taro caletaf gan effeithiau'r llygredd hwnnw. Rhaid mynd i'r afael â'r fath anghyfiawnder a rhaid i'r gwledydd sydd wedi chwarae'r rhan fwyaf wrth achosi'r argyfwng hinsawdd sefydlu a chyfrannu arian at gronfa i gefnogi gwledydd sydd wedi gwneud lleiaf i yrru codiadau tymheredd byd-eang ond sy'n dioddef colled a difrod o ganlyniad iddynt.

Cyflawni addewid

Yn ail, rhaid i wledydd cyfoethog wireddu eu haddewidion i dalu am gyllid hinsawdd i gynorthwyo gwledydd sy'n cael eu

dosbarthu fel gwladwriaethau 'datblygol' er mwyn iddynt fedru lleihau eu hallyriadau ac addasu i effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Gall hyn gynnwys buddsoddi mewn technoleg a seilwaith isadeiledd i newid o danwydd ffosil i ynni adnewyddadwy, neu helpu i wneud cynhyrchu bwyd yn fwy gwydn i fygythiadau hinsawdd, neu fuddsoddi mewn mesurau fel systemau amddiffyn rhag llifogydd. Hyd yn hyn, methodd y gwledydd cyfoethog gyflawni eu haddewidion, a hyd yn oed yn y gwledydd sydd wedi cyllido – gan gynnwys y DU – cymryd arian o gronfeydd sydd eisoes wedi'u hymrwymo ar gyfer gwariant cymorth, yn hytrach na darparu symiau ychwanegol, a wnaethpwyd.

Adnewyddadwy

Rhaid newid i ynni adnewyddadwy. Llosgi tanwyddau ffosil yw prif achos yr argyfwng. Dal i gefnogi prosiectau tanwydd ffosil newydd a wna llywodraethau, er i'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC), rybuddio ym mis Ebrill 2022 y bydd hyn yn arwain at dymereddau'n codi



Croeso gwresog

Bydd capel Penuel Rhymni yn agor ei ddrysau pob bore Mawrth er mwyn rhoi Man Cynnes i'r gymuned leol. Mae'r aelodaeth wedi penderfynu gwneud rhywbeth cadarnhaol er mwyn ymateb i'r argyfwng costau tanwydd a'r cynnydd cyson mewn prisiau bwydydd.

Roedd yr eglwys eisoes yn cefnogi Banc Bwyd Glyn Rhymni ond fel y dywedodd y Parchg Ray Lewis, Llangynidr yn ddiweddar wrth drafod Llyfr Rwth, yr ail bennod, 'Dylem helpu eraill pryd bynnag y gallwn.' A dyma yr ydym yn ceisio ei wneud fel eglwys gyda'r cynllun newydd hwn.

Adam Meredith



y tu hwnt i drothwy 1.5°C. Do, gwnaethpwyd rhywfaint o gynnydd ar drosglwyddo tanwydd ffosil i'r llyfrau hanes ond nifer fechan iawn o wledydd yn y grŵp G20 o genhedloedd sydd wedi cyhoeddi polisiau sy'n egluro sut y byddant yn cyflawni'r ymrwymadau hyn.

Cyflenwi bwyd

Yn olaf, rhaid i COP27 helpu trwsio ein system fwyd. Cododd cyfran y bobl yr effeithiwyd arnynt gan newyn i bron i un o bob deg o bobl ledled y byd yn 2021, gyda phandemig Covid-19, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng hinsawdd i gyd yn difrodi cadwyni bwyd a chyflenwadau bwyd. Mae 34% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gysylltiedig â'n system fwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd datgoedwigo i glirio tir ar gyfer amaethyddiaeth fasnachol.

Ddarllenwyr, erbyn y byddwch yn darllen y geiriau hyn byddwch mewn ffordd i benderfynu a fu COP27 yn llwyddiant? Beth ddywedwch chi?

Hefin Jones

Anogaethau

Llinellau o ffyrddod a gweddi i gyfarch y Parchedig Carwyn Siddall ar ei benodiad fel Cydlynnydd Hyrwyddo Gweinidogaeth Undeb yr Annibynwyr, Hydref 2022.



Fedra i ddim peidio â llongyfarch mewn llinellau llithrig a llawen un o fechgyn Gwlad y Medra.

Un o gewri Môn, mam Cymru, yw Carwyn, dros bont y Fenai mynnai genhadu, gyda gras grymus i garu'n gywir ac yn gyson gynnes pob cymydog gan gynnwys ambell un angharedig.

Yn ddi-ffael, fe fydd yn ffrind ffyddlon a diffuant wrth hyfforddi fforddolion y Ffordd yn y Ffydd. Rhwydd hynt i rwydwaith ei gyd-addysgwyr, a rheidwydd yr angen am addysgu disgyblion dewr a diwyd y Deyrnas ein dydd am gyfoeth dihybydd y Ffydd. Canys gwinllan ein gwlad a roddwyd i'n gofal: gafaew'n yn gryf, yn gadarn a gwrol yn ein gwerthoedd gwiw, a'r gwir oedd yn y Gair yn gnawd o gig a gwaed a'n gwrthodiad o'r gau a'r gwawd a welwyd gerbron y gwaedu ar y Groes.

Carwyn, y golygydd gofalus a graenus; bugail mwyn praid ei gorlan; cyhoeddwr brwd y Gair yn glir, a gwas grasol gostyngedig, yn mentro i swyddogaeth newydd i wasanaethu'r Sanctaidd Un.

Bydd llwyddiant llawen y llanc llariaidd sy'n lletya yn Llanuwchllyn yn lletach na'r llyn mewn sawl llan; a'r llanw yn llifo i Landudno, Llanelli a Llandaf, ac i gorneli tywyll dienaidd rhannau o'n gwlad di-gred.

GWEDDI

[**Gweddiwn** dros Carwyn, ei deulu a'i braidd, dros Gymru'n gwlad, a phob creadur sy'n cofleidio a gwerthfawrogi gwerthoedd a gwirioneddau Arglwydd

Dathlwn Glod Eglwys Pantycrugiau yr Annibynwyr Plwmp: 1848–2023

Blwyddyn nesaf dethlir 175 o flynyddoedd ers sefydlwyd Eglwys Pantycrugiau, ym mhlwyf Llangrannog. Fel rhan o'r dathlu penderfynwyd cofnodi hanes achos Annibynnol yr ardal yn gyffredinol a sefydliad yr eglwys hon ynddi. Mae Lynn Morgan, ysgrifenyddes a thrysorydd y capel, wedi cofnodi hanes bob math o ddigwyddiadau o fewn yr eglwys lle bu fwrllwm o weithgareddau cerddorol, diwylliannol a chymdeithasol.

Mae'n cydnabod y pregethwyr cynnar a'u cefnogwyr brwdfrydig a fu'n arweinyddion Ffydd o fri ac a fu yn barod i ddechrau arwain seiadau, ysgolion Sul a sefydlu'r Eglwys yn 1848. Dathlwn glod rhai o'n cyndeidiau a phobl yr ardal am eu haberth i adeiladu'r capel. Mae'n sôn am weithgareddau di-ri sy'n dyst i waith caled y pregethwyr a fu a'n bugail presennol presennol y Parchedig Carys Ann am ei gwasanaeth gloyw drosom ni am dros 30 o flynyddoedd.

Yn y gyfrol mae:

- 70 o luniau lliw
- Enwir dros 200 o gartrefi'r ardal.

Mae'r awdur yn olrhain:

- Hanes tirlun y capel ers yr Oes Efydd 4,500 o flynyddoedd yn ôl.
- Cysylltiad gydag Abaty Hendy Gwyn ar Daf a'r Arglwydd Rhys yn y 12fed Ganrif.
- Twf Anghydfurfiaeth a'r Eglwys cynnar.
- Effaith ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror.
- Cyfraniad Athrofa Neuadd-lwyd
- Pwysigrwydd yr ysgolion Sul
- Sefydlu eglwys Pantycrugiau
- Gweithgareddau amrywiol yr eglwys ym Mhantycrugiau
- Dyddiad gobeithir ei gyhoeddi mis Tachwedd, 2022

Gwahoddir i chi brynu'r llyfr am £15 yn Siop Plwmp neu trwy gysylltu â Mrs Lynn Morgan, Llynddu, Post Mawr, Llandysul SA44 6JW (07861551514). Sicciau yn daladwy i eglwys Pantycrugiau os gwelwch yn dda.

ffyddlon ein neiniau a'n teidiau y dyrchafwn gri.]

Clyw Arglwydd, ein gwaedd a'n gweddi am gymorth oherwydd cyflwr trist a thlawd y winllan wenydd heddiw'n welw a salw; y mae mewn gwir angen am bob gofal bugeiliol tyner i ailblannu'r winwydden ac adfer ein syched ysbrydol am y gwin bereiddia'i flas.

Gwyddom mai Tydi all wneud y wyrth, O Grist


fab Duw;

tydi all roddi i ni eto flas ar fyw, ac adnewyddu ein heneidiau llesg trwy ras y Crist â'th gariad drudfawr a chwmmi cyffrous a chyfoes dy Lân Ysbryd, ein heiriolwr heriol sydd gyda ni yn dragywydd.

Amen ac Amen.

Gyda dymuniadau gorau i chdi Carwyn am lwyddiant a dedwyddwch yn dy anturiaeth newydd,

Gwilym Wyn Roberts



Yr Adran Gydenwadol

Ceisio Cyfiawnder yn Qatar

Yn ystod y dyddiau nesaf fe fydd llygaid y byd yn troi i gyfeiriad Qatar, wrth i gystadleuaeth bêl-droed Cwpan y Byd FIFA gychwyn ddydd Sul, 20 Tachwedd, ac am y tro cyntaf ers 1958 mae Cymru, wrth gwrs, yn rhan o'r cystadlu. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn edrych ymlaen at y gystadleuaeth ond yn codi sawl cwestiwn ynghylch addasrwydd Qatar i gynnal y gystadleuaeth yn wyneb eu hanes trychinebus ym maes hawliau dynol a goddefgarwch crefyddol.

Erbyn hyn mae'r cynnwrf yn cynyddu yng Nghymru, wrth i furluniau, baneri a cherfluniau ymddangos ar hyd a lled y wlad. Yn y llun gwelir yr het ficed a osodwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Rob Page a'i garfan o 26 chwaraewr, a braf bod yr enwau profiadol fel Bale, Allen a Ramsey yn iach i chwarae. Diolch i blant y Rhondda am gyhoeddi'r enwau i ni rai dyddiau yn ôl, a gobeithiwn y bydd y garfan gyfan yn profi llwyddiant ar y daith hon. Bydd llawer o aelodau'r Wal Goch hefyd yn teithio allan i'r wlad, er bod nifer wedi dewis peidio â gwneud y daith oherwydd agwedd Qatar at hawliau dynol a chamdriniaeth y wlad o ferched a'r gymuned LGBTQI+ yn arbennig. Mae'r elusen Christians in Sport wedi paratoi erthygl yn dwyn y teitl, 'A ddylai chwaraewyr Cristnogol foicotio digwyddiadau mewn mannau dadleuol fel Qatar?' Cliciwch yma i fynd i'w gwefan: <https://christiansinsport.org.uk/resources/askcis/should-christian-sportspeople-boycott-events-in-controversial-places/>

Bydd Cymru yn chwarae eu gêm gyntaf ddydd Llun, 21 Tachwedd, am 7 o'r gloch y nos, a hynny yn erbyn Unol Daleithiau America. Yna, byddant yn herio Iran ddydd Gwener, 25 Tachwedd, am 10 o'r gloch y bore, cyn y gêm fawr yn erbyn Lloegr ddydd Mawrth, 29 Tachwedd, am 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd y gystadleuaeth gyfan yn cael ei chwarae dros bedair wythnos, gyda'r gêm derfynol brynhawn Sul, 18 Rhagfyr, am 3 o'r gloch.

Efallai y bydd eglwysi am ystyried yn ofalus amseriad oedfaon drama'r geni a phartïon Nadolig y plant ar y Sul hwnnw rhag torri ar draws mwynhad y gêm derfynol i lawer o deuluoedd. Bydd rhai eglwysi yn darlledu'r



Huw o flaen yr het yn Aberystwyth

gemau yn eu heglwysi, gan greu gofod diogel a chartrefol i deuluoedd ddod at ei gilydd, ac yn ei weld fel cyfle cenhadol i bontio â'r gymuned. Byddai *Cenn@d* yn falch o gael gwybodaeth am unrhyw gynlluniau sydd gan eglwysi Cymraeg i nodi'r achlysur. Bu llawer o blant yn casglu sticeri'r timau ers amser, a braf eleni oedd gweld sawl llyfr Cymraeg i blant yn rhoi sylw i ymgais Cymru. Yn yr un modd difyr oedd gweld cân eiconig Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd', yn cael ei mabwysiadu fel y gân swyddogol ar gyfer yr ymgyrch, a chynulleidfah ehangach eto fyth yn cael clywed geiriau'r gân arbennig hon. Dymuniadau gorau i dim Cymru felly dros yr wythnosau nesaf.

Ers y cyhoeddiad y byddai'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal eleni yn Qatar bu llawer o densiynau a phroblemau gyda'r dewis i fynd i wlad Arabaidd gaeth, a chyhuddiadau o lwgrwobrwy swyddogion er mwyn denu'r gystadleuaeth i'r wlad. Gwladwriaeth Arabaidd sofran yn y Dwyrain Canol yw Qatar. Fe'i lleolir ar ornyys ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Arabia ar lannau'r Gwlff yng ngorllewin Asia. Mae'n ffinio â Saudi Arabia i'r de ac mae ynys Bahrain yn gorwedd i'r gorllewin. Ei ffiniau eraill yw Gwlff Persia. Yn 2021 roedd poblogaeth Qatar yn 2.2 miliwn, gyda dim ond 218,000 o frodorion Qatar ac 1.9 miliwn o alltudion.

Fe'i rheolwyd gan Brydain nes iddi ddod yn annibynnol yn 1971. Mae teulu Al Thani wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei rheolaeth ers canol y 19g, ac mae Qatar heddiw dan reolaeth unbenathol Emir Tamim bin Hamad Al Thani.

Qatar yw gwlad gyfoethoga'r byd, yn ôl y pen, gyda thwf uwch nag unrhyw wlad Arabaidd arall. Mae ganddi fwy o nwy wrth gefn nag unrhyw wlad arall ar y ddaear; mae ei chronfa wrth gefn dros 25 biliwn casgen. Mae'r rhan fwyaf o bobl frodorol Qatar yn cadw'n agos iawn at grefydd Islam, a chyfraith Sharia yw prif sail cyfreithiau'r wlad. Islam yw crefydd swyddogol y wlad, ac mae 66% o'r boblogaeth yn dilyn y grefydd honno; mae 15% yn Hindŵiaid, a Christnogion yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth. Mae'r gymuned Gristnogol yn Qatar yn gymysgedd amrywiol o alltudion o Ewrop, o ogledd a de America, y Dwyrain Canol ac Affrica. Nid oes unrhyw grwpiau cenhadol tramor yn cael gweithredu'n agored yn y wlad. Ym mis Mai 2005 cyflwynodd Llywodraeth Qatar ddarn o eiddo ar gyrion Doha i arweinwyr yr eglwysi Cristnogol yn y wlad ar gyfer adeiladu eglwys.

Wedi dewis Qatar fel lleoliad Cwpan y Byd yn 2022 bu'n rhaid recriwtio tua hanner miliwn o weithwyr i adeiladu'r stadiwm. Bu cryn feirniadu ar yr amodau gwaith, gyda chyhuddiadau o gaethwasiaeth ac atal cyflogau. Roedd y gweithwyr yn aml yn byw dan amodau budr gyda 12 i un ystafell ac yn aml yn cael eu gadael heb unrhyw fwyd. Roedd diwrnod gwaith yn ymestyn dros 15 awr i lawer, a hynny mewn gwres llethol. Bu'n rhaid i'r wlad addo adeiladu 12 stadiwm newydd mewn pryd ar gyfer y twrnamaint, ac er mwyn cyflawni hyn bu'r gost ddynol yn uchel. Mae Cydffederasiwn yr Undebau Llafur Rhyngwladol yn amcangyfrif bod cynifer â 4,000 o adeiladwyr alltud wedi marw wrth gyflawni'r gwaith.

Her arall yn Qatar yw'r agweddau at hawliau dynol a goddefgarwch, gyda merched a grwpiau'r gymuned LGBTQI+ yn dioddef erledigaeth enbyd. Mae gweithgaredd rhywiol o'r un rhyw wedi'i wahardd yn llwyr yn Qatar, gyda chosb o hyd at saith mlynedd yn y carchar, neu hyd

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Ceisio Cyfiawnder yn Qatar

(parhad o dudalen 1)

yn oed farwolaeth i Fwslimiaid. Mae lefel yr erledigaeth sy'n wynebu'r Cristion yn Qatar yn dibynnu i raddau helaeth p'un a yw'n frodor o Qatar ai peidio. Gweithwyr sydd wedi symud yno o wledydd eraill yw'r rhan fwyaf o Gristnogion Qatar; mae'r credinwyr hyn yn wynebu pwysau a gwahaniaethu ac mae eu heglwysi yn aml yn cael eu monitro'n fanwl gan y llywodraeth, ond maen nhw'n fwy rhydd i addoli.

Fodd bynnag mae'n stori wahanol i gredinwyr brodorol. Mae bywyd yn llawer anoddach iddyn nhw. Mae credinwyr newydd yn debygol o wynebu pwysau eithafol gan eu teulu a'u cymuned Fwslimaidd, os bydd eu ffydd Gristnogol yn cael ei darganfod. Mae merched a merched Cristnogol yn arbennig o agored i gael eu rhyddid wedi'i gwtogi'n ddifrifol gan y teuluoedd Mwslimaidd – gan gynnwys cael eu caethiwo yn y tŷ heb fynediad at gyfathrebu allanol. Nid yw Qatar yn cydnabod yr hawl i droi oddi wrth Islam tuag at grefydd arall yn swyddogol. Yn yr un modd, ni chaniateir i Gristion o gefndir Mwslimaidd briodi rhywun nad yw'n Fwslim.

Un mudiad sy'n gweithio'n ddyfal dros hawliau dynol yn y wlad yw Amnest Rhyngwladol, ac mae ganddynt adnoddau ar eu gwefan yn sôn am eu hymgyrchoedd gwahanol. Mae adroddiad Amnest ar baratodau Qatar ar gyfer cynnal Cwpan y Byd – 'Pam ydych chi eisiau gorffwys?': camdriniaeth barhaus o weithwyr domestig yn Qatar – yn amlygu sut mae awdurdodau Qatar yn methu cynnal arolygiadau o weithleoedd, a sut mae'r diwygiadau diweddar yn methu mynd i'r



afael â cham-drin systemig dros y wlad. Gallwch ddarllen mwy ar eu gwefan: <https://www.amnesty.org.uk/issues/qatar-football-world-cup-2022>

Elusen arall sy'n weithgar o ran hawliau dynol yw Open Doors, ac ar gyfer Cwpan y Byd mae ganddynt gyfres o adnoddau i eglwysi a theuluoedd, gan gynnwys llyfr sticeri ar gyfer plant. Meddai Open Doors, 'Oeddech chi'n gwybod bod saith o'r gwledydd sy'n chwarae yng Nghwpan y Byd eleni ar Restr Gwyllo'r Byd Drysau Agored? Er ein bod yn cydnabod y bydd llawer o bobl yn dewis peidio â gwyllo'r twrnaint, am wahanol resymau, credwn fod y twrnaint yn cynnig cyfle gwerthfawr i godi cefnogaeth i Gristnogion sy'n cael eu herlid sy'n byw yn Iran, Saudi Arabia, Morocco, Tunisia, Mecsico, Camerŵn a'r genedl sy'n cynnal y gystadleuaeth, sef Qatar.' Am fwy o fanylion, ewch i'r wefan: <https://www.opendoorsuk.org/resources/world-cup/>

Dyma weddi gan Open Doors:

Hollalluog Dduw, diolchwn i Ti am Dy bresenoldeb gyda'th bobl yn Qatar. Gofynnwn i ti eu bendithio, eu cryfhau a'u cysuro ar adegau o dreialon, a phryd bynnag y mae'n ymddangos nad oes gobaith na ffordd allan. Gweddïwn ar i ti amddiffyn ein brodyr a chwiorydd, gan dyfu dy eglwys yn Qatar. Defnyddia Gwpan y Byd FIFA 2022 i dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu Cristnogion Qatar, er mwyn sicrhau mwy o ryddid crefyddol iddynt. Amen.

Wrth i dîm pêl-droed Cymru gychwyn ar eu taith, dymunwn bob rhwyddineb a diogelwch iddynt. Yn yr un modd hyderwn y bydd y cefnogwyr yn cadw'n ddiogel gan ddilyn deddfau a chyfraith y wlad. Gobeithio hefyd y bydd cyfle iddynt dystio drwy esiampl a gweithred i'r ffordd gariadus a goddefgar o fyw rydym yn ei harddel yng Nghymru, ac y bydd modd herio pob anghyfiawnder a welir yn y wlad.



Cynhadledd

i baratoi ar gyfer
Dydd Gweddi 2023

Dydd Mawrth,
22 Tachwedd 2022

10 tan 1 o'r gloch

Capel y Groes, Wrecsam
Paned o 10 o'r gloch ymlaen

Croeso i bawb
Mynediad £2

Cyfle i weithio gyda Chymorth Cristnogol Cymru



Ydych chi'n awyddus i weithio ar y cyd ag eglwysi ac eraill er mwyn eu hysbrydoli i fynd ati i weithredu i oresgyn tldi ym mhob cwr o'r byd? Mae Chymorth Cristnogol yn chwilio am bobl o bob cefndir i ymuno â'r tîm yng Nghymru a gwneud gwahaniaeth.

Mae'r swyddi canlynol yn agored ar gyfer ceisiadau:

- Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru (De/De-ddwyrain Cymru)
- Swyddog Cyfryngau, Cyfathrebu ac Adnoddau Cymru
- I ymgeisio a gweld cyfleoedd eraill o fewn Chymorth Cristnogol, ewch i: <https://jobs.christianaid.org.uk/>

Mae ceisiadau cynnar yn cael eu hannog gan fod cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn gyson, a gellid llenwi'r swyddi cyn i'r dyddiad cau ddod i ben.



Cynhadledd

i baratoi ar gyfer
Dydd Gweddi 2023

Dydd Mercher,
30 Tachwedd 2022

10.30 tan 12 o'r gloch
Festri Capel Heol Awst,
Caerfyrddin

Paned o 10 o'r gloch ymlaen
Mynediad £2

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

8 – Taith newydd, stori newydd

Darllen: Rhufeiniaid 4: 9–25;

Hebreaid 12:1–2; Genesis 12:1–9

Roeddwn yn cyfeirio at yr hyn sy'n hanfodol o ran cychwyn taith yr wythnos ddiwethaf, yn benodol, eich bod yn gadael rhywle er mwyn cyrraedd lle arall. Wrth edrych ar destun pennod 12 o Genesis, mae'n amlwg nad taith ddaearyddol yn unig yw hon, hynny yw, fod Abraham yn syml i fynd o un lle i le arall. Mae hon hefyd yn daith o fewn cyd-destun cynnwys Genesis. Nid casgliad o storïau unigol a geir yma, a dyna yw'r perygl sydd ynghlwm wrth edrych ar 'gymeriadau' neu storïau. Maent un ac oll yn rhan o un stori fawr, ac mae galwad Abraham yn arwyddocaol yn y ffordd y mae Duw ei hun yn torri i mewn i fywyd y dyn yma, y teulu yma, mewn ffordd sy'n mynegi ei fwriad i dorri i mewn i fyd toredig.

Hyd yn hyn, rydym wedi cael 11 pennod yn esbonio pam mae'r byd fel ag y mae. Yn y penodau hynny cawn bum cyfeiriad at 'felltith': 3:14 – melltithio'r sarff; 3:17 – melltithio'r tir; 4:11 – melltithio Cain; 5:29 – y felltith oedd ar y tir; 9:25 – melltithio Canaan. Drwy'r cyfan cawn olwg ar ganlyniadau nid yn unig y cefnu ar Dduw sy'n greiddiol i bwy ydym, ond hefyd y gweithredoedd penodol hynny sy'n arwyddo'r cefnu hwnnw. Ond, yn nhair adnod gyntaf Genesis 12, cawn bum defnydd o'r gair bendith: adn. 2 – a bendithiaf di; byddi'n fendith; adn. 3 – bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio; bendithir holl dylwythau'r ddaear.

Wrth ystyried hyn, beth bynnag am daith bersonol Abraham, mae'r adnodau hyn yn gyfeiriad at daith sy'n llawer mwy na digwyddiad yn ei hanes ef. Dyma'r addewid i fyd oedd dan felltith: yr addewid fod modd symud o felltith i fendith, ac o ran yr addewid, ceir diffiniad o beth yw bendith. O ran arwyddocâd, mae'r adnodau hyn ym mhennod 12 yn cyhoeddi bod drws yn cael ei agor, ffynnon yn cael ei chyhoeddi, fyddai'n ateb ein hanallu ni i sicrhau enw i

ni ein hunain, i newid ein ffyrdd ein hunain, i newid ein tynged ein hunain. Mae'n arwyddocaol fod un o'r unig rai sy'n cael ei gymeradwyo yn y penodau agoriadol, sef Noa, yr un a 'gafodd ffafr yng ngolwg yr Arglwydd' (6:8), yntau hefyd yn methu ymysgwyl oddi wrth y drwg oedd yn ei natur ef fel ninnau, gan lithro i feddwod ac anfoesoldeb rhywiol (9:21 ymlaen). Yna, i'r byd y tybiwyd ei fod wedi ei olchi gan y dilyw, cawn hanes Babel, ac awydd pobl i wneud enw iddynt eu hunain a sicrhau enwogrwydd ac arwyddocâd (11:4).

I'r byd yma, fel i'n byd ni, mae Abraham yn cael dod wyneb yn wyneb â Duw, yr un sy'n medru newid pobl, yn rhoi inni enw, yn rhoi inni etifeddiaeth. O droi yn ôl at adnodau cyntaf pennod 12, medrwn yn awr ddeall arwyddocâd beth mae Duw am ei wneud, ac yna'r ffordd y mae Abraham i ymateb. Rwyf wedi tynnu sylw at yr ymadroddion perthnasol yn yr adnodau:

- 1 **Dywedodd yr Arglwydd** wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a **ddangosaf** i ti.
- 2 **Gwnaf di** yn genedl fawr a **bendithiaf di**; **mawrygaf** dy enw a byddi'n fendith.
- 3 **Bendithiaf** y rhai sy'n dy fendithio, a **melltithiaf** y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear."

Er mai taith a stori newydd i Abraham yw hon, stori am waith Duw ydyw, ac am addewid y bydd ef yn ei sicrhau. Man cychwyn y stori yw Duw ac, wrth gwrs, dyma'r man cychwyn i bob taith ysbrydol. Wrth ysgrifennu at y Corinthiaid mae Paul yn cyfeirio at y ffaith hon:

os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan – Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr

oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod (adn. 17–19).

Bydd hyn felly'n ddechrau newydd i Abraham, a hefyd yn ddechrau newydd i genedl, ac i 'holl dylwythau'r ddaear'.

A sylwch, mae'r fendith i'r rhai sy'n bendithio Abraham. Yn syml, mae'r rhai hynny sy'n dod at y Duw sydd wedi cynnig bendith yn gyfnewid am felltith. Y Duw a fendithiodd Abraham sydd yn awr yn cynnig bendith i ni, yn 'bendithio' Abraham wrth iddynt ddilyn mewn ffydd ac ufudd-dod y nodweddion hynny yn ei fywyd y mae Duw yn eu cymeradwyo. Sylwch ar gymal cyntaf adnod 4: 'Aeth Abram fel y dywedodd yr Arglwydd wrtho'.

Wedi cyfeirio at Abraham a gweddill 'cewri'r ffydd' yn Hebreaid 11, mae'r awdur yn ein hatgoffa o'r darlun yma o daith, a'r angenrheidrwydd o wneud yn siŵr nad ydym yn cario dim nad oes ei angen, a bod ein golwg ar Iesu (Hebreaid 12:1–2). Trasiedi fwyaf pobl yw gwybod fod yna ddrws, fod yna ffynnon, clywed yr addewid am fendith, ac eto heb weithredu ar bwys yr wybodaeth a'r addewid yna. Byddwn yn dweud ein bod yn ymddiried, ond ddim yn ymneilltuo, ddim yn mynd i mewn i'r stori newydd y mae Duw yn Iesu yn ein gwahodd i'w phrofi.

1. I Paul, gwaith Duw oedd y rheswm y tu ôl i'r hyn ydoedd fel Cristion. Beth yw'r gwaith penodol fyddwch chi'n ei ddisgrifio fel gwaith Duw yn eich bywyd?
2. Byddwn yn aml yn clywed pobl yn defnyddio ymadroddion fel 'cychwyn newydd', awydd i 'ysgrifennu stori newydd' ac yn y blaen. Beth yn hanes Abraham a gweddill y Beibl sy'n gwneud awduriaeth pobl o ddechrau newydd neu stori newydd yn amhosibl?
3. Faint mae cael eich cynnwys 'yn y fendith' o werth i chi – yn ariannol? O ran amser? O ran parodrwydd i gollu? O ran parodrwydd i ddiodef?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 20 Tachwedd am 7.30yh

Yr wythnos hon fe fyddwn yn Llundain. Daw'r canu mawl o'r eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, East Castle Street, dan arweiniad Trystan Lewis



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 20 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp

Robert Parry yn cyflwyno detholiad o emynau o gymnafa a gynhaliwyd yng nghapel Bethel, Lerpwl, i ddathlu daucanmlywddiant geni Ieuan Gwylt
Sul, 20 Tachwedd, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Andy Herrick, Cwm-ann

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddwr Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Podlediad newydd: Y Cwmni Bach

Ddiwedd mis Hydref 2022 lansiodd cyfres o bodlediadau digidol newydd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg fel rhan o adnoddau'r genhadaeth ddigidol yn sgil derbyn nawdd gan CWM. Enw'r podlediadau yw *Y Cwmni Bach*, a'r syniad y tu ôl i'r gyfres yw ei fod yn gyfle i gynnal sgwrs gyda gwestai er mwyn clywed eu hanes, rhannu profiadau a sôn am y byd a'i bethau.

Cychwynnwyd ar y gyfres hon gyda chyfweiliad rhwng Elinor Wyn Reynolds ac Emlyn Davies Pentyrch. Ac mi gafwyd amser hwyliog a difyr yng nghwmni Emlyn. Rhannodd straeon am ei febyd, y dylanwadau fu arno a phob math o bethau eraill yn ogystal, ac roedd digon o sbort i'w gael hefyd.

Bydd y podlediadau hyn yn ymddangos yn fisol ar wefan yr Undeb dros y ddwy flynedd nesaf, maent yn gyfle gwych i ni gael dod i nabod unigolion o bob cwr o Gymru (a thu hwnt). Mae'r podlediadau i'w cael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i'w gwyltio yn ogystal ag i wrando arnynt. Maent ar gael hefyd ar lwyfannau digidol eraill, sef: Spotify ac iTunes.

Ond, nid dim ond adnodd i wrando arno yn eich cartref eich hun yw *Y Cwmni Bach*, gallwch eu gwyltio neu wrando arnynt yng nghwmni eraill mewn cymdeithas, neu hyd yn oed eu defnyddio yn hytrach nag oedfa ar y Sul. Yn sicr bydd digon o bethau i gnoi cil arnynt yn deillio o wrando ar *Y Cwmni Bach*.

Gobeithio'n wir y gwnewch chi fwynhau'r *Cwmni Bach*.



Colofn Geir-iau

Bod yn Gristion yn y brifysgol

Rwy'n ysgrifennu'r erthygl yma yn nhymor cyntaf fy ail flwyddyn o brifysgol ac rwyf yn barod wedi cael profiad gwych o brifysgol. Rwy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn aelod o nifer o gymdeithasau er mwyn cadw'n brysur pan nad wyf yn astudio. Un o'r cymdeithasau rwy'n aelod ohoni yw'r Undeb Cristnogol. Mae'r Undeb Cristnogol yn grŵp o fyfyrwyr sy'n Gristnogion sydd eisiau dod at ei gilydd mewn ffydd a rhannu'r newyddion da gyda'u cyd-fyfyrwyr. Mae yna Undeb Cristnogol ymron i bob prifysgol yn y Deyrnas Unedig ac yn Aberystwyth rwy'n rhan o'r ddwy gymdeithas, sef yr un Saesneg a'r un Gymraeg.

Profiadau newydd

Rwyf wedi mwynhau mas draw cael dod i nabod fy nghyd-gristnogion ar gampws. Maent yn dod o bob rhan o'r DU ac yn bellach i ffwrdd, ac yn dod o wahanol draddodiadau hefyd, ond rydym i gyd yn unedig yng Nghrist. Yn y cyfarfod cyntaf cefais sioc ar yr ochr orau i weld pobl ifanc yr un oedran a fi yn moli Duw ac yn canu caneuon modern Cristnogol, caneuon doeddwn erioed wedi'u clywed o'r blaen. Roedd gweddio yn uchel mewn grwpiau yn cymryd 'bach o amser i ddod i arfer ag e yn ogystal. Mae'n braf gallu bod yng nghwmni pobl yr un oedran â fi sy'n Gristnogion.

Cyhoeddi

Efallai mai'r peth mwyaf oedd yn wahanol i beth rwyf wedi arfer gydag e yw bod aelodau'r Undeb Cristnogol yn agored iawn yn ei ffydd ac yn angerddol dros rannu'r ffydd honno gyda phobl eraill. Mae sôn am bwysigrwydd rhannu'r newyddion da i'r Cristion drwy'r Beibl, fel yn Marc 16:15 mae Iesu yn dweud wrth ei ddisgyblion, 'Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd.' Felly fel Undeb Cristnogol rydym yn credu fod angen i bawb yn y brifysgol cael clywed am gariad trugarog Iesu a bod ganddynt gyfle i ymateb i hynny os dymunir.

Encil

Dros y misoedd ar ôl dod yn aelod o'r Undeb Cristnogol mi wnes i gyfrannu yn helaeth i weithgarwch yr Undeb gan fynd i ddigwyddiadau Cristnogol. Yn gyntaf mi wnes i fynd gyda'r Undeb ar gyfer penwythnos preswyl i ffwrdd yn y Bala

parhad ar y dudalen gefn



Golygyddol

CODI CALON

Ydw, ers rhai blynnydoedd bellach, rydw i'n weinidog ar ddau enwad yng Nghricieth, sef yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, a'r ddwy eglwys yn cyfarfod o dan yr unto yng Nghapel y Traeth.

O ganlyniad, mi ges y fraint o fod yn un o gynrychiolwyr Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd (sy'n ymestyn o Bennial ym Meirionnydd i Uwchmynydd ar Benrhyn Llŷn) yng Nghymdeithfa'r Hydref yng Nghapel y Groes, Wrecsam ar 8 Tachwedd, ond cynrychiolydd ar Zoom oeddwn i, a pha wahaniaeth am hynny?

Roedd hon yn Gymdeithasfa neu'n Sasiwn Ordeinio Gweinidogion, ac ordeiniwyd dau sef Nerys Griffiths ar ofalaeth Bresbyteriaid Llanrug a Bethesda yn Arfon, ac Alun Morton Thomas ar ofalaeth gydenwadol Llanfairpwll a Llangefni ym Môn.

YMDDIDDAN

Dwi fymryn bach yn amheus o'r gair 'ymddiddan', gormod o dinc hen-ffasiwn Daniel Owenaidd braidd ynddo, ond dyna fo, bodloni sydd raid ar ambell i jargon ieithyddol.

Cyn yr oedfa ordeinio roedd y Parchedig Bryn Williams, Pwllheli yn ymddiddan â'r ddau ymgeisydd, ond chwarae teg, roedd yr ymddiddan hwnnw'n bopeth ond hen-ffasiwn, a diolch i Bryn am hynny ac am ei ysbryd cartrefol braff efo'r ddau ymgeisydd.

CEFNDIR

Nerys, wedi ei magu ym Môn, a'i thad, y Parchedig Hugh Pritchard yn weinidog yn Y Fali cyn symud i Ddinbych cyn dod 'nôl i Fôn i ymddeol. Ym myd gofal y treuliodd Nerys lawer iawn o'i blynnydoedd gwaith ac yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Cafodd brofiad ysbrydol a'i sbardunodd i gyflwyno'i hun i waith y weinidogaeth ac i roi ei bywyd i Iesu Grist. Does dim amheuaeth na fu ei hempoethi tuag at deuluoedd ac unigolion wedi bod o gymorth mawr hefyd.

Un o Fôn ydi Alun Morton Thomas hefyd, wel, o dref Caergybi. Graddiodd mewn Ffiseg yng Nghaergrawnt cyn dilyn gradd mewn Diwinyddiaeth yn yr un ddinas. O Gaergrawnt aeth i Durham i astudio llawysgrifau Aramaeg gan ennill doethuriaeth mewn gwaith ar lawysgrifau hynaf yr Hen Destament, a chanolbwyntio'n benodol ar Lyfr Job, yng Ngholeg Trinity, Dulyn.

ER HYNNY ...

Er holl brofiad Nerys ym myd awdurdod lleol ac o ymwneud a phobl o bob oed, ac er i Alun gymhwyso'i hun yn llawn yn academaidd, gwelodd y ddau ohonyn nhw'r angen i ddilyn darpariaeth addysgol enwadol. Dilynodd Alun gwrs llawn efo'r Presbyteriaid o dan oruchwyliaeth Bryn Williams (sydd hefyd yn gryd dipyn o sgolor academaidd) a Delyth Osyw. Yr un modd Nerys, eto efo Bryn, y diweddar Euros Wyn Jones a Choleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd am dair blynedd, a'r ddau ohonyn nhw yn y diwedd wedi dilyn y canllawiau a llwyf gymhwyso'u hunain i wasanaethu eu Harglwydd.

GOSTYNGEIDDRWYDD

Yn y sgwrs rhwng y ddau a Bryn, un o'r pethau amlycaf yn y ddau oedd eu hysbryd gwylaidd a'u gwerthfawrogiad o'r hyn a roddwyd iddyn nhw.

Y NEGES I NI

Yn stori pererindod y ddau yma mae 'na wersi i ni yn unigol, fel eglwysi ac enwadau. Roedd eu ffydd yn Iesu Grist fel Gwardwr yn rhywbeth real byw iawn iddyn nhw; roedd eu gostyngeidrwydd yn amlwg i bawb, ac yr oedd eu parodrwydd, er eu holl gymwysterau, i dderbyn darpariaeth addysgol enwadol yn rhywbeth i'w glodfori. Yng nghydestun hynny, dymunwn yn dda iawn i Carwyn Siddall yn ei rôl newydd ymhlith yr Annibynwyr, ac ymatebwn fel enwad i'r ddarpariaeth.

Diolch am egwyl yng nghwmni'r ddau, Nerys ac Alun cyn y cyfarfod ordeinio, a diolch am neges heriol Evan Morgan yn y cyfarfod hwnnw. Boed bendith Duw yn helaeth ar y ddau yn eu gwaith.

Iwan Llewelyn

Eglwysi Cynulleidfaol Dwyieithog Penybont a Threfgarn Owen Sir Benfro

Gyda'r cyhoeddiad fod ein gweinidog y Parchg Geoffrey Eynon yn ymddeol fis Gorffennaf nesaf, wedi 46 mlynedd yn yr ofalaeth, rydym yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys, neu grŵp o eglwysi yn y cyffiniau, sydd â diddordeb mewn ystyried ymuno â'r ofalaeth i gysylltu â ni.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â:

Mrs Haulwen Warlow
Ysgrifennydd yr Ofalaeth
01437 563306

haulwen.warlow@btinternet.com

GWAHODD GWEINIDOG RHAN AMSER

Eglwysi Annibynnol Glandwr,
Cefnpant, Hebron, Nebo Efailwen,
Llwynyrhrdd Tegryn, Sir Benfro.

Y mae'r eglwysi uchod yn gwahodd ceisiadau am weinidog rhan amser.

Am fanylion pellach cysyllter a:

Bethan Hinde
Garth, Y Glôg
SA36 0ED.



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS**Ffôn: 02920 490582****E-bost: aluntudur@btinternet.com****Golygyddion**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.comAlun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:****Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe****ABERTAWA SA7 0AJ****Ffôn: 01792 795888****E-bost: undeb@annibynwyr.cymru****Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Colofn Geir-iau – parhad

ym Mryn-y-groes (canolfan gynadledda Gristnogol). Dyma gyfle i glywed gair Duw a phregethau gan Tim Payne am bwrpas Cristnogion o ran efengylu. Cefais fy ysbrydoli i ymwneud â Christnogaeth mewn modd gweithredol, a cheisio fy ngorau i wneud mwy yn y brifysgol.

Ymestyn allan

Ar ôl dod yn ôl o'r Bala ymgymerais â gweithgareddau a digwyddiadau estyn allan. Rwyf wedi mwynhau bod yn rhan o'r ymgysylltu stryd. Bob nos Fercher mae'r Undeb Cristnogol yn mynd allan i'r stryd i gynnig te, coffi a bisgedi i fyfyrwyr – mae nos Fercher yn noson allan i nifer o gymdeithasau yn y brifysgol. Mae hyn yn gyfle i gael sgwrsiau diddorol a dwys gyda myfyrwyr sydd wedi meddwi o bosibl, ond rydym hefyd yn gweld llawer o ddiddordeb yn yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae nifer o fyfyrwyr yn gofyn i fi, 'Pam rwyf ti'n gwneud hyn?' Fy ymateb yw fy mod i'n gwneud hyn am fod Iesu wedi fy ngalw. Nid er mwyn i deimlo'n dda, neu am fy mod eisiau cael fy nerbyn, ond yn hytrach am fy mod eisiau clodfori Iesu a'i wasanaethu.

Yn debyg iawn i'r gweithgaredd ar y stryd a'r nos Fercher, rwyf hefyd yn estyn allan i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn ystod digwyddiadau Sŵn, sef gigs cerddoriaeth Cymraeg misol yn y brifysgol. Mae'r digwyddiadau hyn yn

teimlo'n wahanol. Er bod y fformat yn debyg, mae'r bobl yn wahanol. Yn aml rwy'n teimlo bod myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cadw eu ffydd fel rhywbeth personol. Er bod nifer wedi bod yn rhan o'r 'traddodiad' o fynd i'r capel a'r ysgol Sul, dydyn nhw ddim yn gweld fod Cristnogaeth yn fwy na dim ond hynny, sef traddodiad.

Dilyn Iesu

Rwy'n gweld fy ffydd bersonol fel rhywbeth ysbrydol iawn, yn rhywbeth sy'n berthynas rhwng Iesu a fi. Wrth ddod i brifysgol mae'n ddechrau newydd ym mywydau pobl, yn gyfle i fod yn annibynnol, i ddod yn chi eich hun. Efallai fel person ifanc eich bod chi'n pellhau oddi wrth Iesu pan ewch chi i'r brifysgol. Ond cefais i fy adnewyddu'n Gristion, a dod i wir ddeall y newyddion da ei bŵer a'i ystyr, deall y gymdeithas a'r Eglwys a hefyd beth yw ystyr bod yn Gristion. Yn hytrach na dilyn y dorf rwyf wedi gwir dod yn annibynnol ac anhunanol a gwneud y penderfyniad dros ddilyn Iesu. Mae'n rhywbeth sy'n fwy na dim ond traddodiad, dydd Sul, a Nadolig, mae'n rhywbeth sy'n rhan greiddiol o fy hunaniaeth.

Ac wrth gwrs nid yw dod yn Gristion yn gwneud eich bywyd yn rhwyddach, rydych yn dal i wynebu sialsensau a phwysau gwaith prifysgol. Gall yr her o gael rhai pobl yn cwestiynu eich ffydd fod yn anodd weithiau. Ond wrth wynebu'r pethau hyn rydych yn nwylo Iesu ac ar ei lwybr Ef – fe ddewch i weddio ac i

ddarllen y Beibl. Ac fe fyddwch chi'n cyfrif eich bendithion!

Bendith

Mae wedi bod yn fendith i fi gael dod i'r brifysgol, rwyf wedi gwneud ffrindiau arbennig yn yr Undeb Cristnogol a thu allan hefyd. Mae wir wedi newid fy mywyd. Rwy'n ddiolch i Dduw am y cyfleoedd dwi wedi cael, rwyf hefyd eisiau diolch i Gwilym Tudur am bob anogaeth, mae Gwilym yn weinidog ar eglwys Annibynnol Seion yr eglwys rwy'n mynd iddi yn Aberystwyth.

Os ydych chi, neu rywun chi'n nabod yn y brifysgol, neu ar fin mynd i brifysgol, mi fyddwn i'n eu hannog i ymwneud â'r Undeb Cristnogol oherwydd mae'n brofiad gwir arbennig. Beth am sôn am eich ffydd chi wrth ffrind, dros baned efallai. Beth yw'r peth gwaethaf all digwydd?

Cai Phillips

*Mab fferm laeth yn ardal
Blaen-y-coed, Sir
Gaerfyrddin yw
Cai. Mae'n aelod
o eglwys Blaen-y-
coed. Mae'n
ymwneud llawer
â gwleidyddiaeth
bu'n areithio ar
faes yr Eisteddfod
Genedlaethol eleni ar
yr argyfwng ail dai.*

*Ar hyn o bryd mae'n astudio Cysylltiadau
Rhyngwladol a'r Cyfryngau ym
Mhrifysgol Aberystwyth.*

